Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanilar
# Ysgol Gynradd Llanilar
# Llanilar
# Ceredigion
# SY23 4PA

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/06/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llanilar. Mae’n cwrdd mewn adeilad hunangynhwysol ar safle Ysgol Gynradd Llanilar, yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae’r lleoliad yn darparu addysg a gofal am bum bore’r wythnos a thri phrynhawn.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i gymryd hyd at 19 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed. Ar hyn o bryd, mae pob plentyn cymwys yn cael ei ariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae bron pob un o’r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac mae ychydig ohonynt yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae’r lleoliad yn cyflogi dau ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Ionawr 2007.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Mai 2017 a gan Estyn ym mis Medi 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn dangos cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol
- ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu effeithiol i herio'r plant yn bwrpasol
- addysgu bwriadus yn gwella deilliannau'r plant yn llwyddiannus
- y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol
- gofal diwyd a synhwyrol yr ymarferwyr yn creu awyrgylch hapus a difyr
- amgylchedd dysgu ysgogol yn ennyn diddordeb y plant yn ddeallus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad cadarn a chlir i waith y lleoliad
- systemau hunanarfarnu rheolaidd yn arwain at osod targedau defnyddiol
- ymarferwyr yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol a mynychu hyfforddiant priodol gan asiantaethau allanol
- defnydd cydwybodol o wasanaethau cymorth fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn cefnogi'r ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn bwrpasol
- cefnogaeth weithredol gan y pwyllgor rheoli
- partneriaethau buddiol gyda'r rhieni a gofalwyr, y gymuned a'r ysgol leol
- defnydd synhwyrol o gyllid i sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth fewnol a'r ardal allanol

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod asesiadau dyddiol yn cael eu defnyddio’n effeithiol i gynllunio’r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A2 Datblygu strategaethau effeithiol i leihau’r lefelau sŵn yn yr adeilad

A3 Sicrhau bod arferion monitro’r pwyllgor rheoli yn drylwyr a chadarn

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau o'u mannau cychwyn sy'n debyg i'r cyfartaledd disgwyliedig. Maent yn cyflawni'n dda dros amser yn eu medrau llythrennedd a rhifedd, gyda llawer ohonynt yn gwneud marciau'n fwriadus ac ychydig yn ysgrifennu llythrennau a rhifau'n gywir.

Mae rhan fwyaf y plant yn siarad yn glir ac yn sicrhau bod oedolion a phlant eraill yn eu deall wrth esbonio ac egluro'n ddeallus eu bwriadau yn ystod gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn trafod yn synhwyrol ymysg ei gilydd wrth iddynt greu siocled yn y ffatri siocled chwarae rôl a pherfformio'n hyderus ar lwyfan â meicroffon. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan eraill ac yn gweithredu arnynt yn effeithiol. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gasglu peli o'r dŵr â net i lenwi bocsys wyau a thrafod eu teimladau yn ystyrlon mewn grŵp. Mae ychydig o'r plant yn defnyddio iaith aeddfed mewn chwarae digymell a strwythuredig. Mae hyn yn cynnwys trafod meintiau gwahanol ddoliau o Rwsia a disgrifio'r tywydd i'w gilydd gyda dyfeisiau electronig.

Mae rhan fwyaf y plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau eu cynnwys. Maent yn trafod cymeriadau a digwyddiadau yn hyderus gydag oedolion a chyfoedion ac yn trin llyfrau fel darllenwyr naturiol. Mae llawer o'r plant yn eistedd yn dawel ac yn dilyn storïau a ddarllenir iddynt yn ddeallus. O ganlyniad, maent yn rhannu storïau gyda'i gilydd ac yn ymateb â diddordeb i gynnwys y stori fel esbonio sut i fwytho gwlân oen a disgrifio wyau yn deor.

Mae llawer o'r plant yn gwneud marciau'n bwrpasol. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu cynnar ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau. Maent yn arbrofi gyda phaent, sialc, creonau a'u bysedd mewn ewyn eillio i greu patrymau a llythyren gyntaf eu henwau. O ganlyniad, mae mwyafrif y plant yn adnabod eu henwau eu hunain yn gywir ac yn ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau'n annibynnol. Mae llawer o'r plant yn esbonio diben ysgrifennu yn y cyd-destunau cywir, er enghraifft wrth wneud marciau ar bapur i gofnodi cynhwysion wrth wneud siocled.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol ac mewn cyd-destunau cywir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau hyd at 10 yn hyderus. Mae ychydig o'r plant yn cyfrif tu hwnt i 10 yn fedrus, wrth drefnu gwrthrychau'r gwanwyn yn yr ardal byd bach a chodi gwahanol ffrwythau gyda gefel i'w didoli yn ôl math a lliw.

Mae rhan fwyaf y plant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn llwyddiannus. Maent yn llenwi jygiau yn ofalus o'r gasgen ddŵr ac yn mesur i'r hanner yn gywir. Maent yn trefnu eu hunain mewn rhes yn hyderus cyn gwisgo'u cotiau, gan ddefnyddio trefnolion o'r cyntaf i'r bumed yn briodol. Yn ogystal, maent yn cydweithio'n ddiwyd wrth baratoi teisen yn y gegin fwd a chreu alawon gwreiddiol wrth chwarae gydag offer coginio yn yr ardal allanol.

Mae llawer o’r plant yn deall y gwahaniaeth rhwng symud i’r dde a’r chwith wrth iddynt daflu a dilyn peli ar y buarth. Yn ogystal, maent yn grwpio mathau gwahanol o wrthrychau yn ôl maint, siâp a lliw yn gywir, yn enwedig wrth adeiladu tyrrau yn yr ardal adeiladu. Mae llawer o’r plant yn cymharu siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn gywir. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys esbonio bod cylch yn fflat ar bapur ond yn grwn wrth ddisgrifio sffêr.

Mae’r rhan fwyaf y plant yn dechrau defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio llechi electronig a thrwy dasgau sy’n cynnwys teganau electronig, camerâu a chyfrifiadur. Yn ogystal, maent yn defnyddio meddalwedd addysgol ac apiau i ddatblygu eu medrau TGCh a’u medrau echddygol manwl yn bwrpasol.

Mae llawer o’r plant yn datblygu medrau meddwl a chreadigol defnyddiol trwy weithgareddau diddorol, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a’r safonau y maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, maent yn creu siart llif i recordio taith yr afon i’r llyn ac yn cofnodi nodweddion y gwanwyn fel grifft a phenbyliaid yn y dŵr a’r blagur ar y coed.

Mae bron pob un o’r plant yn hoffi gwrando ar gerddoriaeth ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn y Gymraeg. Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio’u medrau corfforol yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt neidio a throelli o amgylch y buarth, gyrru beiciau a sgwteri yn hyderus a dringo’n frwd ar gyfarpar anturus yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r plant yn uniaethu’n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch tuag at oedolion a’i gilydd. Mae rhan fwyaf y plant yn gwrando’n ofalus ar ymarferwyr. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw eu hymroddiad i dacluso ar ôl chwarae a gwisgo ffedogau cyn peintio a gweithio’n anniben.

Mae bron pob un o’r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu, ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio’n gydwybodol yn ystod y gweithgareddau. Mae rhan fwyaf y plant yn rhannu adnoddau ac yn gweithio’n synhwyrol gyda phlant eraill. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, fel rhifo a chladdu deinosoriaid yn y tywod a phlannu hadau a pherlysiau yn yr ardal dyfu.

Mae rhan fwyaf y plant yn dechrau gwneud dewisiadau synhwyrol yn ystod chwarae rhydd. Maent yn mynegi barn a gwneud dewisiadau personol yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt benderfynu symud o’r adeilad i’r ardal allanol i brofi gweithgareddau newydd. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y plant yn ddysgwyr hyderus a hunangynhaliol.

Mae ymwybyddiaeth bron pob un o’r plant o hylendid yn gadarn. Maent yn deall bod cadw’n iach yn bwysig a bod angen osgoi heintiau trwy arferion doeth ar ôl defnyddio’r toiled, chwarae anniben a gweithgareddau yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae bron pob un o’r plant yn golchi eu dwylo’n drylwyr heb lawer o anogaeth gan oedolyn.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n ddiwyd i ddarparu gweithgareddau diddorol ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae eu hymroddiad cydwybodol yn ennyn diddordeb y plant yn effeithiol. Effaith eu gwaith yw bod y plant yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol, tu mewn a thu allan i'r adeilad. Er enghraifft, maent yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol trwy chwarae rôl yn y gegin fwd ac i ddilyn taith fywyd broga.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm difyr, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn bwrpasol. Mae eu cynllunio ar gyfer darparu profiadau dysgu ysgogol yn effeithlon ac yn bodloni anghenion a diddordebau'r plant yn synhwyrol. Fodd bynnag, er bod y cynllunio'n canolbwyntio ar greu profiadau diddorol, nid yw'n gwbl seiliedig ar ganfyddiadau'r asesu. O ganlyniad, nid yw'n herio unigolion yn ddigon cyson yn erbyn y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r holl ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant leisio eu syniadau personol i gyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach. Mae hyn yn cynnwys dewis llyfrau'n annibynnol i drafod yn y cwtsh ddarllen a mynegi eu barnau personol ar eu hoff gynhwysion i wneud smwddi. Mae'r gweithgareddau hyn yn ychwanegu'n gadarnhaol tuag at frwdfrydedd dyddiol y plant wrth iddynt ddysgu trwy chwarae a gweithgareddau addysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau meddwl y plant yn effeithiol. Mae gweithgareddau, sy'n cynnwys heriau llythrennedd a rhifedd, yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn ysgogi'r plant i berfformio ar eu gorau'n gyson. Gwelir enghreifftiau ymarferol o hyn wrth i blant drafod nodweddion y gwanwyn, fel ffermwr yn aredig y tir a chenhinen Bedr yn egino. O ganlyniad, mae gwybodaeth a dealltwriaeth bron pob un o'r plant yn datblygu'n gadarn.

Mae'r ddarpariaeth o'r iaith Gymraeg yn fuddiol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn fodelau da o'r iaith wrth drafod â'r plant. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy'r gweithgareddau dyddiol ac atgyfnerthu eu datblygiad yn rheolaidd. Maent yn holi'r plant yn bwrpasol yn yr ardaloedd dysgu dan do ac awyr agored. O ganlyniad, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y plant o'r iaith yn datblygu'n gadarnhaol ac maent yn ymateb â geirfa ac ymadroddion cyfarwydd mewn amser byr.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen a choginio prydau traddodiadol fel cawl a phobi cacennau fel picau ar y maen.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i'r plant arbrofi ag ystod eang o offer fel camerâu, llechi electronig a theganau i'w rhaglennu. Mae pob ymarferwr yn herio plant yn effeithiol, gan ddefnyddio meddalwedd ac apiau addysgol yn y Gymraeg ar y llechi electronig a'r cyfrifiadur. Mae hyn yn datblygu medrau TGCh cynnar y plant yn fwriadus.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn llwyddiannus. Maent yn gadael iddynt ddringo cyfarpar anturus a llithro i'r llawr yn annibynnol a gyrru beiciau a sgwteri'n fywiog i wella'u datblygiad corfforol. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau creadigol y plant. Maent yn darparu cyfleoedd da trwy ddefnyddio sialc i wneud marciau a rhifau ar y buarth a pheintio wrth îsl i ddarlunio agweddau o'r gwanwyn ar bapur.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, maent yn ymweliad â ffermydd lleol i astudio ceffylau, cerdded i'r siop leol, y garej a'r meddygfa. Mae hyn yn atgyfnerthu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae ymwelwyr fel y gwasanaethau brys, nyrs a glanweithydd deintyddol yn addysgu'r plant yn llwyddiannus am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac yn wybodus ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol a diogel wrth osod ffiniau cadarn yn eu lle trwy gydol y sesiynau. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus yn eu gweithgareddau. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r lefelau sŵn yn yr adeilad yn uchel, sy'n gwrthdynnu sylw ychydig o blant ac yn amharu ar eu hymroddiad i'r dasg.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac maent yn eu herio'n ddeallus mewn tasgau ffocws a gweithgareddau parhaus. Maent yn ymyrryd yn synhwyrol ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu hysgogi a'u cymell i lwyddo. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae. Enghraifft effeithiol o hyn yw arbrofi wrth adeiladu tyrrau yn yr ardal adeiladu a threfnu te parti wrth osod y byrddau'n daclus gyda llestri a chytleri yn yr ardal gartref.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn effeithiol. Maent yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i'r plant symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd mewnol a thu allan. Mae hyn yn herio'r plant i wneud dewisiadau doeth ynglŷn â'u dysgu. Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn bwrpasol i ddatblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Gwneir hyn yn fedrus wrth drafod teimladau unigolion ar ddechrau sesiwn a chynnal trafodaethau bywiog am fywyd ffermwr, lle maent yn ŵyna yn ystod misoedd y gwanwyn.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn sefydlog a chadarn. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio gweithdrefnau'r awdurdod lleol, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae'r arweinydd yn cofnodi'r asesiadau'n rheolaidd a chyson. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Maent yn defnyddio asesiadau dyddiol i nodi'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon trylwyr wrth gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant. Mae'r ddeialog ddyddiol rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr yn atgyfnerthu hyn yn dda. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae gwybodaeth gynhwysfawr am gyflawniad eu plant ar gael i rieni drwy lyfrynnau defnyddiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r ymarferwyr yn arwain sesiynau torfol defnyddiol yn bwrpasol i annog y plant i gyfarch ei gilydd, i fyfyrio am deimladau eraill a dweud diolch. Mae dulliau synhwyrol yr ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch yn effeithiol ymysg y plant. Mae hyn yn atgyfnerthu'r defnydd o'r gwerthoedd hyn ym mywyd dyddiol y lleoliad. Enghraifft effeithiol yw'r system 'helpwr y dydd', sy'n pennu dyletswyddau i unigolion ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn eu tro. O ganlyniad, mae'r plant yn gwrtais wrth fwyta byrbrydau a gweini llaeth a dŵr o amgylch y bwrdd bwyta.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau'n rhan o ddiet synhwyrol. Mae trefniadau llwyddiannus yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'n cefnogi dysgu'r plant yn synhwyrol, fel hyrwyddo gweithgareddau i gyflymu'r galon yn yr ardal allanol. O ganlyniad, mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, nwyddau plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn bwrpasol.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad afreolus yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth heb bryder. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn effeithiol pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae'r ymarferwyr yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd. Maent yn nodi eu mannau cychwyn yn fanwl trwy ddilyn canllawiau'r awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen. Mae'r ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda'r asiantaethau priodol, fel y lleferydd iaith, i ddarparu cymorth cyn gynted ag y bo modd i dargedu anghenion unigolion.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau dyddiol a'u cymhelliant cyson. Mae'r ymarferwyr yn herio a chefnogi'r plant yn gydwybodol. Maent yn pwysleisio'n ddyddiol fod angen parchu ei gilydd a bod dewisiadau unigolion yn rhan bwysig o'u datblygiad personol.

Mae'r ymarferwyr yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd a Diwali yn flynyddol ac yn darparu cyfleoedd cyson i blant flasu bwydydd o wledydd gwahanol fel pitsâs o'r Eidal.

Mae'r ymarferwyr yn bodloni anghenion y plant yn synhwyrol a chaiff yr holl blant gyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol, sy'n cydnabod unigolrwydd y plant yn bwrpasol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod eang yr adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus i gyfoethogi'r dysgu a thasgau ffocws. Mae'r adnoddau'n hygyrch i bawb, ac yn hyrwyddo synnwyr y plant i gymryd cyfrifoldeb yn effeithiol, fel o gwmpas y gegin fwd a'r gasgen ddŵr. Yn ogystal, mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r adeilad o ansawdd da, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn effeithiol. Mae'r ardal allanol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i dyfu a phlannu, ymholi ac ymchwilio, dringo a rhedeg o gwmpas. Maent yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn defnyddio cyfleusterau'r ardal leol yn synhwyrol, fel adnoddau'r pentref ac ardaloedd byd natur cyfagos.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn gweithredu ei gweledigaeth glir ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cyfeiriad cadarn i waith cyfredol y lleoliad. Mae hi'n monitro'r ddarpariaeth wythnosol yn drwyadl ac yn sicrhau gweithgareddau difyr a diddorol ar gyfer y plant. Mae hi'n rhannu'r cynlluniau a bwriadau'r gweithgareddau dyddiol gyda'i chydweithwyr yn bwrpasol, er mwyn iddynt ddeall eu rolau tu mewn i'r adeilad ac yn yr ardal allanol. O ganlyniad, maent yn gweithio'n ddiwyd fel tîm.

Mae trafodaethau a chyfarfodydd staff rheolaidd yn galluogi ymarferwyr i rannu gwybodaeth am ddatblygiad plant unigol yn effeithiol. Mae'r arweinydd yn llwyddo i greu amgylchedd lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac felly'n rhoi o'u gorau. Mae'r arweinydd yn hyrwyddo datblygiadau newydd yn effeithiol ac yn cymell ymarferwyr i wneud gwelliannau mewn modd cefnogol. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio strategaethau llwyddiannus i fesur cynnydd y plant yn ieithyddol. O ganlyniad, mae gan yr arweinydd a'r ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y ddarpariaeth a'r addysgu.

Mae'r lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn llwyddiannus, yn ogystal â datblygu'r ddarpariaeth yn yr awyr agored yn bwrpasol. Maent yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafaredd y plant.

Mae'r pwyllgor rheoli'n gymharol newydd i'w rolau. Maent yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod i drefnu gweithgareddau codi arian ac maent yn monitro'r cyllid yn gyson. Maent wedi dechrau gwerthuso gwaith yr arweinydd a'r ymarferwyr yn synhwyrol. Fodd bynnag, mae'r gweithdrefnau gweinyddol yn newydd iddynt ac nid ydynt bob tro'n monitro holl arferion y lleoliad yn ddigon trylwyr.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau'r lleoliad yn effeithiol ac mae'r cynllun datblygu yn nodi'r meysydd i'w datblygu yn bwrpasol.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau'r plant a'r ddarpariaeth. Mae'r cydweithio cydwybodol sy'n weladwy'n ddyddiol, ynghyd â thrafodaethau'r ymarferwyr, yn cyfrannu at hyn yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r hunanarfarnu'n rhoi ystyriaeth werthfawr i farn ymarferwyr, y plant, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r wybodaeth sy'n deillio o'r prosesau hyn yn rhoi darlun cyflawn a chywir o waith y lleoliad.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cymryd camau pwrpasol i gynnal arferion rheolaidd a rhoi newidiadau ar waith drwy gynlluniau datblygu effeithiol. Maent yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi â gwahanol strategaethau i lwyddo. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n blaenoriaethu gwariant yn unol â'r camau a nodwyd ar gyfer gwella yn ddefnyddiol. Maent felly'n gwella'r ddarpariaeth trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau a derbyn cyngor gwerthfawr gan eraill. Er enghraifft, maent wedi ymateb i awgrymiadau athrawon cefnogi yr awdurdod lleol yn brydlon a phwrpasol trwy sefydlu mannau cychwyn i'r plant a monitro'u cynnydd yn llwyddiannus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol. Mae'n gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a safonau a lles plant. Er enghraifft, mae cysylltiadau cadarnhaol iawn yn bodoli gyda'r ysgol leol. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir i gefnogi'r trosglwyddo i fywyd ysgol yn gadarn. Mae'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn drefnus ac yn fuddiol i'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Mae'r arweinydd yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain yn effeithiol ar faterion i wella'r lleoliad, trwy holiaduron, cyfryngau cymdeithasol a thrafodaethau cyson.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn dda, fel y berthynas agos gyda sioe a charnifal y pentref. Yn ogystal, mae hyn yn cynnwys digwyddiadau llwyddiannus i godi arian a chynigion am gyllid grantiau fel nosweithiau cawl a chân a chystadlaethau dawnsio. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, sy'n meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn atgyfnerthu'r perthnasoedd cadarnhaol sy'n bodoli ac mae'r sefydliadau hyn yn rhannu dogfennaeth a pholisïau ac yn hwyluso hyfforddiant a chyngor rheolaethol yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig i wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, hyfforddiant y cyfnod sylfaen a diogelu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n anelu'n gyson tuag at wella pob agwedd ar waith y lleoliad, trwy reoli staff ac adnoddau'n effeithiol. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys trwy sicrhau hyfforddiant pwrpasol iddynt. O ganlyniad, maent yn dîm o ymarferwyr sefydlog a chadarn.

Mae'r arweinydd yn annog yr ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn enghraifft dda o gymuned ddysgu gadarnhaol.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn arwain at brofiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau'n synhwyrol i gefnogi'r dysgu. Mae hyn yn cynnwys y defnydd deallus o'r ardal allanol ar gyfer gweithgareddau corfforol, ymholiadau ac ymchwiliadau a'r ymweliadau gwerthfawr i'r gymuned leol.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a phwysigrwydd codi arian i gynnal a gwella'r adnoddau. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn ofalus gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella'n bwrpasol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth bwrpasol a'r arweinyddiaeth effeithiol.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |